

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru **Datganiad Iaith Gymraeg**

Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Rydym yn sicrhau bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal o ansawdd da.

Mae AGIC yn ymrwymedig i helpu'r iaith Gymraeg i ffynnu.

Cyd-destun Polisi

Mae'r datganiad hwn yn cydweddu â'r fframwaith polisi canlynol:

Cymraeg 2050

Mae Cymraeg 2050 Strategaeth y Gymraeg yn nodi dull hirdymor Llywodraeth Cymru o gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod angen i ni gyrraedd sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn elfen hollol naturiol o bob agwedd ar fywyd bob dydd.

Mae AGIC yn rhan o Lywodraeth Cymru ac yn ymrwymedig i weithio tuag at gyflawni'r targed hwn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Nod y Ddeddf hon yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn meddwl mwy am yr hirdymor, yn gweithio gyda phobl a chymunedau a'i gilydd yn well, gan geisio atal problemau a gweithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Un o'r saith nod llesiant a restrir yn y Ddeddf yw "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

Fel corff cyhoeddus, mae AGIC yn ymrwymedig i'r Nodau Llesiant.

Ffyniant i bawb

'Ffyniant i Bawb' yw Strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r ymrwymadau a nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu, 'Symud Cymru Ymlaen'. Un o amcanion y strategaeth genedlaethol yw 'Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnherth'. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda chymunedau ledled Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn modd cadarnhaol a chynhwysol.

Fel rhan o Lywodraeth Cymru, mae AGIC yn ymrwymedig i gyflawni'r amcanion yn Ffyniant i Bawb.

Fframwaith Mwy na Geiriau

Nod y fframwaith 'Mwy na Geiriau' yw cryfhau gwasanaethau Cymraeg ym meysydd ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Un o egwyddorion allweddol y fframwaith yw'r 'Cynnig Rhagweithiol'. Mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb osod cyfrifoldeb ar y defnyddiwr i ofyn amdano.

Mae AGIC yn cadarnhau bod gwasanaethau gofal ieched yn darparu gwasanaethau Cymraeg fel rhan o'n rhaglen arolygu bresennol. Fel rhan o'r fframwaith, mae AGIC yn arolygu ac yn llunio adroddiadau i weld p'un a yw siaradwyr Cymraeg yn gallu defnyddio'r Gymraeg fel rhan naturiol o'u gofal, a ph'un a yw siaradwyr Cymraeg yn gallu defnyddio'r Gymraeg i fynegi eu hunain wrth gael gofal, yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y ffordd rydym yn arolygu gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau annibynnol ar ein [gwefan](#).

Strategaeth AGIC 2018-21

Mae ein strategaeth yn ein galluogi i chwarae rhan lawn i helpu i gyflawni amcanion Ffyniant i Bawb a Cymraeg 2050.

Mae ein Cynllun Strategol yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf: ein blaenoriaethau strategol a'r hyn a wnawn i wireddu ein huchelgais.

Un o'n blaenoriaethau strategol yw 'bod yn fwy gweladwy'. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein gwaith yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl a sicrhau ein bod yn cynnwys yr holl anghenion, gan gynnwys yr iaith Gymraeg.

Un o flaenoriaethau strategol eraill AGIC yw 'datblygu ein pobl a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl'. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod modd i'n staff cael hyfforddiant ac adnoddau Cymraeg.

Ein hymrwymiad i'r Gymraeg

Fel sefydliad dwyieithog, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y cyhoedd, ein rhanddeiliaid a'n gwasanaethau cofrestredig yn gallu defnyddio ein gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg yn golygu ein bod yn ymrwymedig i barhau i ddatblygu ein darpariaeth ddwyieithog.

Ar gyfer y cyhoedd a rhanddeiliaid

- Pan fydd y cyhoedd yn cysylltu â ni, rydym yn sicrhau bod modd iddynt gyfathrebu yn Gymraeg os hoffent wneud hynny. Rydym yn sicrhau bod siaradwr Cymraeg ar gael bob amser i ateb galwadau yn Gymraeg
- Rhown wybod i'r cyhoedd ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg ac na fydd gohebiaeth yn Gymraeg yn achosi oedi
- Anfonir pob gwahoddiad i gyfarfodydd yn ddwyieithog, ac rydym yn sicrhau y caiff cyfieithwyr ar y pryd eu hystyried ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a bod trefnwyr y cyfarfodydd cyhoeddus yn atgoffa unigolion ar ddechrau'r cyfarfod bod modd iddynt gyfrannu yn Gymraeg
- Caiff yr holl ddogfennau ar gyfer y cyhoedd eu cynhyrchu yn Gymraeg a'u cyhoeddi ar ein gwefan ddwyieithog
- Mae ein gwefannau corfforaethol ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog
- Cynhyrchir pob hysbysiad cyhoeddus a phob hysbyseb yn ddwyieithog.

Ar gyfer ein staff

- Rydym yn gwerthfawrogi ein staff sy'n siarad Cymraeg ac rydym yn hyrwyddo amgylchedd gwaith sy'n annog defnyddio'r Gymraeg, lle y bo'n bosibl.
- Rydym yn annog staff sydd am ddysgu'r Gymraeg i fynd ar gyrsiau Cymraeg a sicrhau bod ganddynt ddigon o amser ac adnoddau i ddysgu'r iaith.

Y ffordd rydym yn monitro ein cydymffurfiaeth a'n hymrwymiad tuag at yr Iaith Gymraeg

- Rydym yn cyfarfod â thîm Safonau'r Gymraeg Llywodraeth Cymru yn rheolaidd i sicrhau hîm Safonau Llywodraeth Cymru yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn dilyn y safonau
- Rydym yn cyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru a chaiff ein gweithgarwch Cymraeg ei gofnodi yn ei hadroddiad blynyddol ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg
- Rydym yn sicrhau ein bod yn dilyn polisiau Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru
- Rydym yn cyflwyno adroddiadau ar ganfyddiadau ein harolygiadau o ran darpariaeth Gymraeg a byddwn yn dechrau dadansoddi themâu a thueddiadau cenedlaethol ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol yn 2019-20.